

# Ysgol Gynradd Gym,raeg Tyle'r Ynn



Diogelu  
Gwybodaeth i rieni



Mr Cerith Humphreys  
Swyddog Uwch  
Dynodedig Diogelu ac  
Amddiffyn Plant



Mrs Lianne Vaughan  
Dirprwy Swyddog  
Dynodedig Diogelu ac  
Amddiffyn Plant

Cyfeiriad: Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn,  
Llansawel Crescent, Llansawel, SA11 2UN

Rhif ffôn (01639) 812229

Gwefan: <http://ygg-tyler-ynn.j2bloggy.com>

Ebost: yggtylerynn@npt.school

Trydar: @tylerynn

Rhifau ffôn defnyddiol:

Samantha Jones (01639) 763363 - Swyddog  
Dynodedig Diogelu plant yr AALL

John Burge (01639) 763598 - Cefnogaeth  
Disgybliona Rieni

## Beth mae diogelu yn golygu?

- Diogelu plant rhag camdriniaeth.
- Cadw plant yn ddiogel rhag niwed megis salwch, camdriniaeth ac anafiadau.
- Atal amharu ar iechyd a datblygiad plentyn.
- Sicrhau fod ein plant yn tyfu i fyny mewn amgylchedd diogel ac effeithiol.

Beth sy'n digwydd os oed gennym bryderon am blentyn?

Fe fydd pob pryder am ddiogelu plant yn cael ei nodi ar system 'My Concern'. System hollol gyfrinachol yw hon sydd yn storio gwybodaeth am unrhyw bryder. Bydd y wybodaeth yma yn ein helpu i adeiladu cronoleg o bryderon er mwyn cynnig cyngor neu gefnogaeth briodol ble bo angen, gan gynnwys cefnogaeth wrth asiantaethau allanol.

Os bydd pryderon difrifol ynghylch camdriniaeth neu esgeulustod yn cael eu cyfeirio ar unwaith at Cerith Humphreys neu Lianne Vaughan, y Swyddog Diogelu Plant Dynodedig a'r Dirprwy Swyddog Dynodedig Diogelu Plant. Nhw fydd yn penderfynu ar y cam nesaf e.e.. cyngor wrth Swyddog Diogelu'r AALL, cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu gysylltu â'r heddlu.

Os oes unrhyw breder fod plentyn mewn perygl, rhaid dilyn gweithdrefnau polisi Amddiffyn Plant yr ysgol

Sut mae Y.G.G Tyle'r Ynn yn cadw fy mhlentyn yn ddiogel?

- Cyfrifoldeb yr ysgol ydy sicrhau fod eich plentyn yn ddiogel ac mae hyn yn cael ei gyflawni yn y ffyrdd canlynol:-
- Mae drysau allanol yr ysgol yn cael eu cadw dan glo bob amser ac mae'n rhaid i ymwelwyr fynd i'r brif fynedfa.
- Atgoffir plant yn rheolaidd eu bod ddim i agor y drysau i ymwelwyr, dim hyd yn oed eu rhieni.
- Rydym yn sicrhau fod ymwelwyr yn arwyddo mewn ac allan fel ein bod yn gwybod pwy sydd ar y safle.
- Cynhelir ymarfer tan yn dymhorol i sicrhau fod staff a phlant yn dial y drefn.
- Cynhelir gwiriad Iechyd a Diogelwch gan staff, y gofalydd a llywodraethwyr perthnasol.
- Cynhelir asesiadau risg cyn unrhyw ymweliad neu weithgaredd tu allan i'r ysgol, yn ogystal â rhai gweithgareddau yn yr ysgol.
- Mae'n amodol i bob aelod o staff gael gwiriad GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) cyn iddynt ymuno a'r ysgol.
- Mae pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant.
- Mae hyfforddiant Cymorth Cyntaf y staff yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.
- Mae gan yr ysgol Swyddog Dynodedig Diogelu Plant (Cerith Humphreys) a Dirprwy Swyddog Dynodedig Plant (Lianne Vaughan).

